



Disability Wales
Anabledd Cymru

ANABLEDD CYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL
2021-2022



CYNNWYS

Nodau ac Amcanion Strategol	4
Llwyddiannau ac Effaith	8
Adroddiad y Cadeirydd	10
Adroddiad y Trysorydd	14
Adroddiad y Prif Weithredwr	16
Datganiad o weithgareddau ariannol	22
Mantolen	24


BWRDD CYFARWYDDWYR

♦ Wendy Ashton	tan 14 Mawrth 2022
♦ Anne Champ	
♦ John Gladston	
♦ Amanda Glover	tan 26 Mawrth 2022
♦ Simon Green	tan 14 Mawrth 2022
♦ Caroline Holloway	
♦ Kelvin Jones	
♦ Trevor Palmer	
♦ Angharad Price	o 20 Hydref 2021
♦ Deborah Shaffer	o 20 Hydref 2021
♦ Cunqiang Shi	o 20 Hydref 2021



Teisennau Dathlu 50fed Pen-blwydd
Anabledd Cymru

NODAU AC AMCANION STRATEGOL



Gweledigaeth

Disability Wales/Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol sefydliadau pobl anabl yng Nghymru sy'n ymdrechu i sicrhau hawliau a chydaddoldeb pob person anabl.

Cenhedaeth

Ein rôl graidd yw cynrychioli barn a blaenoriaethau aelodau i'r llywodraeth gyda'r bwriad o ysbrydoli a dylanwadu ar bolisi.

Nod Strategol 1:

Dylanwadu ar bolisi a phobl sy'n penderfynu ar bob lefel, trwy weithredu fel eiriolwr effeithiol ar gyfer barn, blaenoriaethau a buddiannau'n haelodau.

- Amcan Strategol 1: Cynrychioli buddiannau pobl anabl yng Nghymru gerbron Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n penderfynu
- Amcan Strategol 2: sicrhau hawliau, cydraddoldeb a bywydau annibynnol er mwyn gwella lles pobl anabl

Nod Strategol 2:

Datblygu a chefnogi gwaith sefydliadau sy'n cael eu rheoli gan bobl anabl.

- Amcan Strategol 1: Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i sefydliadau sy'n aelodau
- Amcan Strategol 2: Cynllunio a chyflenwi hyfforddiant a rhaglenni datblygiad i grwpiau sy'n aelodau

Nod Strategol 3:

Arwain a datblygu sefydliad effeithiol, cynaliadwy a sicrhau llywodraethiant cadarn a chydnerth.

- Amcan Strategol 1: Arwain a rheoli sefydliad effeithiol ac effeithlon er budd pobl anabl
- Amcan Strategol 2: Sicrhau llywodraethiant cadarn a chydnerth y sefydliad
- Amcan Strategol 3: Arloesi, datblygu a chyflenwi amrywiaeth o wasanaethau sy'n creu incwm ac sydd o fudd i bobl anabl

Gwerthoedd

- Model Cymdeithasol Anabledd
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Cymdeithas Gynhwysol
- Hunanbenderfyniad
- Llusern arfer gorau
- Wedi ymrwymo at sicrhau ansawdd

Cynnig Gwasanaethau Ymgynghoriaeth a Hyfforddiant Arbenigwr Anabledd Cymru ar-lein yn ystod y pandemig



LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

Manffesto Dewch Â'n Hawliau i Ni: sicrhawyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori CCUHPA yng Nghyfraith Cymru

Cyhoeddi pecyn adnoddau diwygiedig: Gwybod eich Hawliau Defnyddio eich Hawliau Byw eich Hawliau

Rôl gydlynol yng nghyd-gynhyrchiad adroddiad Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19

Dangosiad cyntaf Datgloi Bywydau, ffilm yn dangos problemau bywyd pob dydd pobl anabl yn ystod y cyfnod clo

Lansiad Rhaglen Mentora Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal mewn partneriaeth â WEN Cymru, EYST a Stonewall Cymru

Cyhoeddiad Adroddiad Cysgodol y Gymdeithas Sifil ar Weithredu CCUHPA yng Nghymru

EFFAITH

Nifer y prosiectau newydd:

5

Nifer y digwyddiadau ar-lein:

36

Nifer y cyfranogwyr:

1181

Dosbarthu £101K o grantiau i 7 o Sefydliadau Pobl Anabl yng Nghymru

Nifer y ceisiadau i'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru:

18

Nifer y bobl a gafodd eu recriwtio i'w Mentora o dan gynllun Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal:

26

Myfyrwyr anabl ar leoliad:

6

Nifer y dilynwyr newydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol:

968

Cyfanswm y dilynwyr trwy'r cyfryngau cymdeithasol:

19,947

Nifer o argraffiadau Trydar:

1,191,169

Nifer yr ymweliadau â'r wefan:

216,164

Nifer y golygfeydd o fideos:

26,127

Nifer y cyfweiliadau teledu a Radio:

17

ADRODDIAD Y CADEIRYDD



Disability Wales/Anabledd Cymru (AC) yw cymdeithas genedlaethol sefydliadau pobl anabl yng Nghymru.

Yn ystod 2022 rydym wedi bod yn dathlu 50 mlynedd o lwyddiannau pobl anabl yng Nghymru gan gydnabod ar yr un pryd bod gennym ffordd bell i fynd i daclo'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Fe welwch chi, wrth i chi ddarllen adroddiad yr ymddiriedolwyr eleni, faint o waith sydd wedi ei wneud gan ein tîm ymrwymedig ac ymroddedig.

Ein rôl graidd yw cynrychioli barn a blaenoriaethau aelodau i'r Llywodraeth gyda'r bwriad o ysbrydoli a dylanwadu ar bolisi gan ymdrechu ar yr un pryd i sicrhau hawliau a chydraddoldeb pob person anabl. Mae ein gwaith wedi ei gyflenwi mewn ffordd wahanol iawn yn ystod y pandemig. Mae ein staff, cyfarwyddwyr ac aelodau i gyd wedi addasu'n dda i weithio ar-lein ac rydym wedi bod yn falch o weld bod hyn wedi arwain ar fwy o gyfranogiad gan ein haelodau; rydym wedi cynnal gweithdai, sgysiau a gweminarau y mae nifer wedi eu mynychu. Rydym

wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, gan ddylanwadu ar bolisi - yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r pandemig wedi amlygu'r rhwystrau at gefnogaeth a'r anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan nifer o bobl anabl sydd wedi cynyddu o ganlyniad i bandemig Covid a'r argyfwng costau byw presennol. Mae ein gwaith, sydd wedi ei gyflwyno'n fanwl yn yr adroddiad, wedi canolbwyntio'n helaeth ar nid yn unig adferiad ar ôl Covid ond hefyd ar sicrhau bod effeithiau'r pandemig ar bobl anabl yn cael eu cydnabod.

Mae Covid wedi arwain at amhariadau gydol oes i nifer o unigolion a gafodd eu derbyn i'r ysbyty, ac mae angen i ni gofio y bydd angen cefnogaeth ar y bobl yma i sicrhau eu hawliau fel pobl anabl. Mae gennym raglen waith lawn ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn y broses o sicrhau eiddo newydd sy'n fwy addas ar

gyfer y modelau newydd o weithio ac sy'n ein galluogi i ymgysylltu mewn ffyrdd mwy cyd-gynhyrchiol o weithio a pharhau i estyn allan ac ymgysylltu â'n haelodau.

Mae e wedi bod yn amser o golled a galar i nifer o bobl; roeddem ni'n drist iawn o golli aelod gwerthfawr o'r Bwrdd, Simon Green, a hefyd colled drist ein cyn gyfarwyddwr, Judith Pennington. Fe gollon ni hefyd ein cyfaill a chyd-ymgyrchydd, Vin West. Ar lefel Bwrdd, roedden ni'n drist o orfod ffarwelio â'n Cadeirydd ers amser, Wendy Ashton a'n Trysorydd, Mandi Glover hefyd, sydd ill dwy wedi ymddeol o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth i Anabledd Cymru, ac rydym yn diolch i'r ddwy am eu holl waith caled a'u hymrwymiad dros y blynyddoedd.

Roedd yn anrhydedd i mi gael cais i gymryd Cadair Bwrdd Cyfarwyddwyr Anabledd Cymru a hoffwn ddweud diolch personol i Wendy a Mandi am bob dim yr wyf wedi dysgu ganddyn nhw yn ystod fy mlynnyddoedd fel is-gadeirydd, a hefyd i bobl un o'n cyfarwyddwyr sy'n rhoi o'u hamser yn hael i gefnogi a hyrwyddo gwaith Anabledd Cymru. Mae ein Tîm o Staff yn parhau i dyfu ac rydym wedi croesawu Gillian Styles i'w rôl fel Rheolwr Cyllid a Chydymffurfiaeth. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda hi.

Rwy'n gwybod fy mod yn siarad ar ran y cyfarwyddwyr i gyd wrth ddanfôn ddiolchiadau diffuant at ein staff i gyd am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn eu rolau. Mae'r ffaith bod Anabledd Cymru wedi gallu parhau i dyfu yn ystod amser mor heriol yn dyst i'w hymroddiad at hyrwyddo hawliau pobl anabl.




Willow Caroline Holloway
Cadeirydd



Parhaodd Anabledd Cymru i hyrwyddo Model Cymdeithasol Anabledd trwy gydol y Cyfnod Clo

ADRODDIAD Y TRYSORYDD



Pleser o'r mwyaf yw cael cyflwyno ein hadroddiadau ariannol blynyddol i'n haelodau a'n partneriaid mewn blwyddyn heriol arall. Gwelodd y flwyddyn y sefydliad yn defnyddio gwersi'n barhaus yn y ffordd yr ydym yn gweithio mewn ffordd wahanol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy gyfryngau digidol ond gan ein galluogi ni ar yr un pryd i barhau i wneud mynediad yn deg i bawb.

Rydym yn parhau â heriau wrth sicrhau ariannu craidd gan bartneriaid, ond mae ein heffeithiolrwydd fel sefydliad wrth gyflenwi prosiectau wedi ein galluogi i gadarnhau ceisiadau ar gyfer ariannu ychwanegol e.e. Cwricwlwm Newydd i Gymru - Adnoddau CCUHPA a Mynediad i Swyddi Etholedig gan arwain at flwyddyn lwyddiannus. Byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant yma i amrywio a chryfhau ffrydiau ariannu'r dyfodol.

Mae defnyddio ffyrdd newydd o weithio wedi ein galluogi ni i gyfyngu ein costau a, gydag amseru cyflenwi'r prosiect, wedi ein galluogi ni i gael arian dros ben ar gyfer y flwyddyn yn gyfan gwbl. Amlinellir hyn yn fwy manwl yn ein Hadolygiad Ariannol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi datblygu trefniadau dros dro ac wedi parhau i gyflenwi swydd wag

y Rheolwr Ariannol a lenwyd yn llwyddiannus ym Mai 2022. Mae'r arian ychwanegol ar gyfer cyflawni prosiectau hefyd wedi arwain at dri phenodiad rhan amser, tymor penodol pellach.

Yn olaf hoffwn bwysleisio rhai diolchiadau:


I fy rhagflaenydd, Mandi Glover, am nifer o flynyddoedd fel Trysorydd AC a'r gefnogaeth y mae hi wedi rhoi i fi fel ymddiriedolwr.

Fel trysorydd, hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Ariannol sydd wedi gweithio trwy'r rhifau i gyd a'r cydymffuriad, gan sicrhau ein bod ni, fel elusen, yn gweithredu'r safonau uchaf er mwyn cyflenwi ein nodau a'n hamcanion ar gyfer ein haelodau.



Kelvin Jones
Trysorydd

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR



Wrth i Bandemig Covid-19 fynd i ail flwyddyn gyda chyfnodau clo pellach a chyfyngiadau eraill, parhaodd Anabledd Cymru i weithredu o bell heb unrhyw laesu dwylo yn ein rôl o gynrychioli barn a blaenoriaethau aelodau gerbron y llywodraeth gyda'r bwriad o ysbrydoli a dylanwadu ar bolisi.

Fe wnaeth lansiad a hyrwyddiad nifer o gyhoeddiadau allweddol yr oeddem ni ynghlwm â'u cyhoeddi gydag aelodau, ein galluogi ni i ddal profiadau pobl anabl i ysbrydoli'n canfyddiadau a'n galwadau at gael cymdeithas fwy cyfartal a chynhwysol.

Profodd Maniffesto AC, Dewch Â'n Hawliau i Ni, yn ddylanwadol yn ystod Etholiadau'r Senedd yn 2021, ac, ochr yn ochr â chyfres o hystingau ar-lein a chefnogaeth eang gan ein haelodau, sicrhodd ymrwymiad trawsbleidiol ar gyfer ein galwad am i Lywodraeth newydd Cymru gynnwys CCUHPA yng nghyfraith Cymru. Cadarnhawyd yr ymrwymiad yma at ddefnyddio'r CCUHPA fel fframwaith ar gyfer creu polisi a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru yn ei Rhaglen ar gyfer Llywodraeth

Rhoddodd cyhoeddiad yr adroddiad unigryw Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl Covid-19 gyfle pellach i ddangos niwed difrifol ac effaith barhaus coronafeirws ar bobl anabl. Yn ei hymateb cydnabyddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r adroddiad ac ymrwymodd ei hun eto i ddefnyddio Model Cymdeithasol Anabledd fel yr egwyddor ar gyfer ysbrydoli polisi ynghyd â chynlluniau ar gyfer cynnwys y CCUHPA.

Hefyd, sefydlodd Dasglu Hawliau Anabledd gweinidogol i fynd i'r afael â'r argymhellion yn 'Drws ar Glo' trwy ddull cyd-gynhyrchiol. Mae AC yn ymwneud â llunio gwaith y Tasglu yn ogystal â rhoi gwybod i aelodau am ddatblygiad a rhoi cefnogaeth iddyn nhw i gymryd rhan.

Tra bod *Drws ar Glo* yn canolbwyntio ar dorri hawliau


dynol mewn perthynas â Covid-19, daeth materion ehangach i'r golwg yn Adroddiad Cysgodol y Gymdeithas Sifil ar Weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCPRD) yng Nghymru. Trwy arolwg o aelodau, galwad am dystiolaeth a grwpiau ffocws croestoriadol mewn partneriaeth â Sefydliadau Pobl Anabl a rhanddeiliaid eraill, cynhyrchon ni adroddiad manwl tu hwnt i'w gyflwyno at Bwyllgor y CU ar Hawliau Pobl Anabl a fydd yn ysbrydoli ei adolygiad o gynnydd Llywodraeth y DU wrth weithredu'r Confensiwn.

Galluogodd y dull cyd-gynhyrchiol a oedd yn cynnwys Pobl Yn Gyntaf Cymru Gyfan, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru, CBA FDF yng Ngogledd Cymru a Chydraddoldeb a Race Equality First, i ni ymestyn allan at y cymunedau amrywiol o bobl anabl a dal amrywiaeth eang o brofiadau i ysbrydoli'r adroddiad arwyddocaol yma. Ein casgliad ar y cyfan yw, er bod peth cynnydd wedi ei wneud ers Adolygiad y CU yn 2017, mewn nifer o feysydd, mae yna lithro pellach wedi bod mewn hawliau pobl anabl. Yn benodol, ychydig iawn o sylw sydd wedi ei roi i faterion croestoriadol fel camdriniaeth ddomestig sy'n cael ei dioddef gan bobl anabl o gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig mewn ieched a gofal cymdeithasol, a diffyg mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl anabl LGBTQ+.

Sylw cofiadwy gan un person a ymatebodd a gafodd eu dyfynnu yn yr Adroddiad Cysgodol yw bod 'todi yn un o ffeithiau bywyd' i bobl anabl. Mae'r pryderon yma wedi dyfnhau wrth i'r argyfwng costau byw afael gyda chynnydd pryderus mewn prisiau ynni a bwyd. Fel gyda Covid-19, mae hyn yn fater arall sy'n berygl bywyd i bobl anabl, y mae nifer ohonyn nhw'n dibynnu ar wresogi a thrydan i gynnal eu hiechyd ac offer hanfodol. I ymateb i hyn, rydym wedi canolbwyntio ar gasglu dystiolaeth gan aelodau ac rydym yn mynegi pryderon ac yn galw am gamau priodol ar y lefel uchaf.

Un o ganfyddiadau allweddol adroddiad *Drws ar Glo* oedd bod prinder pobl anabl mewn safleoedd ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn fwy na thebyg yn cyfrannu at bolisiau Covid-19 a oedd yn methu â chydabod yr effaith ar ein cymuned. Yn y cyfamser, amlygodd Adroddiad Cysgodol y CCUHPA gyflwyniad y Cynllun Mynediad at Swyddi Etholedig yng Nghymru fel un o'r ychydig o feysydd ble cafwyd cynnydd. Ar ôl lobïo ers amser am gynllun o'r fath, roeddem wrth ein bodd o fedru llywio cynllun peilot ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd a Llywodraeth Leol.

Bwriad y Gronfa yw rhoi cymorth ariannol i fynd i'r afael â'r rhwystrau



Sesiwn hyfforddiant ar-lein cyfarwyddwyd a staff Anabledd Cymru gyda Mik Scarlet

sy'n wynebu pobl anabl wrth sefyll ar gyfer swyddi gwleidyddol. Galluogodd dyfarniadau ariannol i ymgeiswyr brynu offer, cyflogi cynorthwyr personol a thalu am gostau trafnidiaeth mewn perthynas â'u hymgyrchoedd. Anogodd cyfres o ddigwyddiadau Mynediad at Wleidyddiaeth a chynhyrchiad fideo ysbrydoledig 18 o geisiadau i'r Gronfa a oedd yn agored i bobl anabl a oedd yn sefyll mewn etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymuned. Derbyniodd 13 o ymgeiswyr ddyfarniadau gyda 6 yn cael eu hethol. Rydym yn chwilio am arian pellach i adeiladu ar lwyddiant cychwynnol y Gronfa a sicrhau bod mwy o bobl yn gwneud cais yn yr etholiadau nesaf.

Mewn partneriaeth â RhCM Cymru, EYST a Stonewall Cymru, cafwyd arian gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i drefnu rhaglen mentora arloesol Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal. Wedi ei anelu fwy o amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus, mae'n cynnig rhaglenni mentora a datblygiad i bobl â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys pobl anabl, sydd â diddordeb mewn cael safleoedd mewn bywyd cyhoeddus. Dewiswyd 26 ar gyfer mintai AC gyda nifer yn cyrraedd rolau ar Fyrddau a rolau eraill yn llwyddiannus ar ôl y rhaglen, gan ledu nifer y bobl anabl sydd ar gael i ddylanwadu.

Yn ogystal â rhaglenni wedi eu hanelu at unigolion anabl, bodlonodd AC amcan allweddol hefyd o gefnogi Sefydliadau Pobl Anabl trwy ddosbarthu £101k mewn grantiau i saith grŵp ar draws Cymru, yn ogystal â chyflwyno sesiynau hyfforddiant mewn codi arian i'r aelodaeth ehangach. Ariannodd y grantiau weithgareddau ar lawr gwlad gyda'r bwriad o gefnogi byw'n annibynnol a mynd i'r afael ag unigrwydd gan adeiladu gan Grantiau Argyfwng Covid-19 a ddosbarthwyd o'r blaen. Cafodd y grantiau bach yma effaith fawr ond mae aelodau'n sôn wrthym yn rheolaidd am yr heriau wrth sicrhau arian o ffynonellau eraill. Nod pwysig i AC yn y dyfodol yw codi ymwybyddiaeth ymhlith arianwyr am y rôl unigryw ac anghenion sefydliadau pobl anabl fel cam tuag at eu cynaliadwyedd ariannol tymor hir.

Mae sicrhau llywodraethiant a rheolaeth wydn i AC mor bwysig ag yw dylanwadu ar bolisi a mentrau sy'n cefnogi aelodau. Mae'r symudiad angenrheidiol at weithio o bell wedi gweithio'n dda i AC, gan ein galluogi i recriwtio'n ehangach o ar draws Cymru ac ymhlith y rheiny sy'n wynebu rhwystrau at weithio mewn swyddfa draddodiadol. Felly hefyd, mae cyfarfodydd ar-lein wedi galluogi mwy o gyfranogiad gan aelodau'r Bwrdd, lleihau teithiau a chyd-fynd mwy ag ymrwymadau

eraill. Rydym yn falch iawn bod ein Hadolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl wedi nodi'n gallu i addasu cystal i amgylchiadau fel nod o arfer gorau.

Wrth i ni ddathlu ein 50 mlwyddiant, rydym yn ddyledus i ac yn cynnig diolch i bawb sydd wedi gwasanaethu neu wedi cefnogi'r sefydliad mewn ffyrdd gwahanol dros y blynyddoedd. Er bod cynnydd yn fwy araf nag y gallem ddisgwyl, serch hynny mae newidiadau arwyddocaol wedi bod yn y gyfraith ac agweddau cymdeithasol am bobl anabl ers y 1970au. Yn AC, rydym yn falch o fod wedi chwarae'n rhan yn y datblygiadau hanesyddol yma a pharhau i ffurfio cyfeiriad hawliau anabledd a chyd-raddoldeb yng Nghymru a thu hwnt.



Rhian Davies
Prif Weithredwr


DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

gan gynnwys Cyfrif
Incwm a Gwariant

**Ar gyfer y
flwyddyn
ddaeth i ben
31 Mawrth 2022**

	Cyllid Anghyfyngedig 2022	Cyllid Cyfyngedig 2022	Cyfanswm 2022	Cyllid Anghyfyngedig 2021	Cyllid Cyfyngedig 2021	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£	£	£
Incwm:						
Rhoddion a chymynroddion	280,436	-	280,436	272,445	5,060	277,505
Gweithgareddau Elusenol	22,445	302,915	325,360	498	273,772	274,270
Buddsoddiadau	352	-	352	29	-	29
Cyfanswm yr Incwm	303,233	302,915	606,148	272,972	278,832	551,804
Gwariant:						
Gweithgareddau Elusenol	229,407	322,290	551,697	228,858	217,324	446,182
Gwariant Net	73,826	(19,375)	54,451	44,114	61,508	105,622
Symudiad Net mewn cronfeydd	(7,520)	7,520	-	(1,880)	1,880	-
Balans y gronfa ar 01.04.2022	66,306	(11,855)	54,451	42,234	63,388	105,622
Balans y gronfa ar 01.04.2022	381,714	101,714	483,428	339,480	38,326	377,806
Gweddill y gronfa ar 31 Mawrth 2022	448,020	89,859	537,879	381,714	101,714	483,428

Ar gyfer y
flwyddyn
ddaeth i ben
ar 31 Mawrth
2020



Gellir gofyn am gopi o'r Adroddiad Blynnyddol llawn a'r Datganiadau Ariannol gan Anabledd Cymru trwy finance@disabilitywales.org.
Rhif cofrestru elusen 517391

Rhif cofrestru cwmni 1998621 (Lloegr a Chymru)

	2022 £	£	2021 £	£
Asedau Cyfredol				
Dyledwyr	129,368		42,524	
Arian yn y banc a buddsoddiadau wrth gefn	441,691		518,793	
	571,059		561,317	
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(33,180)		(77,889)	
Asedau Cyfredol Net	537,879		483,428	
Cronfeydd Incwm				
Cronfeydd cyfyngedig		89,859		101,714
Cronfeydd anghyfyngedig				
Cronfeydd dynodedig	225,130		225,130	
Cronfeydd anghyfyngedig cyffredinol	222,890		156,584	
		448,020		381,714
		537,879		483,428



Disability Wales
Anabledd Cymru

Tŷ Brydon
Bloc B
Parc Busnes Caerffili
Heol Van
Caerffili
CF83 3ED

Rhif Elusen: 517391

Rhif y Cwmni: 1998621

Derbyniodd Anabledd Cymru
arian gan Lywodraeth Cymru

 029 2088 7325

 029 2088 8702

 info@disabilitywales.org

 disabilitywales.org

 twitter.com/DisabilityWales

 facebook.com/DisabilityWales